



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

03442 640 670

Rydym yn croesawu
galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

22 Ionawr 2019

Annwyl Nick,

Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ysgrifennaf i roi darlun cyffredinol o fy mhryderon parhaus ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn.

Fel y gwyddoch, ers nifer o flynyddoedd y mae fy swyddfa wedi bod yn chwarae rhan weithgar o ran cynorthwyo pobl hŷn a'u teuluoedd sydd wedi derbyn gofal annerbyniol yng ngogledd Cymru ac rwy'n parhau i ddarparu cymorth i unigolyn a effeithiwyd gan wasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Daeth yr adroddiad a luniwyd gan Donna Ockenden yn 2015 i'r casgliad fod cleifion ar ward Tawel Fan wedi dioddef diffyg gofal proffesiynol, urddasol a thrugarog mewn amgylchedd a achosodd iddynt gael eu hatal ac i'w hawliau dynol fel unigolion gael eu torri o bosibl. Yr oedd yn alonogol fod BIP Betsi Cadwaladr wedi derbyn canfyddiadau'r adroddiad

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ac wedi ymrwymo i gymryd camau pellach i gael darlun llawn o'r hyn a ddigwyddodd ar y ward.

Yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith a ddechreuwyd gan y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys penodi Rheolwr Rhaglenni Pobl Hŷn, i adolygu ac ail-ddylunio modelau gwasanaeth a llwybrau clinigol ar gyfer pobl hŷn a datblygu strategaeth pobl hŷn. Fodd bynnag, gan ystyried difrifoldeb y materion dan sylw a'r cyfnod o amser sydd wedi mynd heibio cyn dechrau'r gwaith hwn, mae gen i bryderon o hyd am brofiadau pobl hyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Er bod adroddiad HASCAS a gyhoeddwyd yn 2018 wedi dod i'r casgliad 'nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiadau blaenorol bod cleifion wedi dioddef cam-drin bwriadol nac esgeulustod bwriadol, na bod y system wedi methu â darparu gofal a thriniaeth mewn ffordd y gellid ei bennu oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer cam-drin sefydliadol', mae'n cyfeirio'n glir at y ffaith bod methiannau sefydliadol sylweddol a methiannau sylweddol mewn systemau wedi cyfrannu at ofal a oedd yn is na'r safon ar gyfer unigolion ar ward Tawel Fan. Mae effaith gofal is na'r safon ar unigolion yn cynnwys:

- pryder a cholli urddas;
- gofal a thriniaeth wedi'i gyfaddawdu, oedd weithiau'n cael ei ddarparu mewn amgylchedd clinigol oedd yn is na'r safon;
- heintiau ac anafiadau a gafwyd mewn ysbyty; a
- lefelau iechyd, diogelwch a lles wedi'u cyfaddawdu.

Drwy gyfrwng fy ngwaith achos, rwy'n ymwybodol o'r effaith ddinistriol y gall y gofal hwn sy'n is na'r safon ei chael ar unigolion.

Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod y materion hyn wedi codi o ganlyniad i nifer o fethiannau sylfaenol mewn systemau o ran goruchwyllo a llywodraethu. Roedd pryderon yn ymwneud yn benodol â llwybrau gofal cleifion a chynllunio gwasanaethau, aciwtedd cleifion a chyfyngiadau ar ddarparu gwasanaeth, ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth a gofal a thriniaeth oedolion hŷn. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir nad oedd effeithiau'r materion hyn wedi'u cyfyngu i ward Tawel Fan yn unig, ond

wedi arwain at oblygiadau ar amrywiaeth o wasanaethau a ddefnyddir gan bobl hŷn.

Un mater sy'n achosi pryder mawr yw casgliad yr adroddiad fod y methiannau hyn mewn systemau yn dal heb eu datrys neu ar gam gymharol gynnar o ran eu gwella a'u datblygu. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn dweud nad oes digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai profiad claf heddiw, mewn termau ymarferol, yn sylweddol wahanol i brofiadau cleifion o garfan yr ymchwiliad, gan nodi bod hwn yn faes sy'n gofyn am weithredu ar fyrder.

A sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers cau'r ward, rwy'n bryderus iawn fod y materion hyn yn dal heb eu datrys i bob pwrpas ar draws ystod o wasanaethau a bod rhai o'n pobl hŷn mwyaf bregus o bosib yn wynebu gofal gwael a risg ddiangen o ganlyniad.

Caiff y sefyllfa hon ei hadlewyrchu mewn gohebiaeth rhwng Donna Ockenden ac Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar drwy gais Rhyddid Gwybodaeth. Yr oedd llythyr gan Donna Ockenden yn nodi bod defnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr a staff BIP Betsi Cadwaladr yn parhau i gysylltu â hi a'i tîm i nodi pryderon ynghylch cyn lleied o gynnydd sy'n cael ei wneud. Yn ogystal, mae hi wedi rhannu pryderon nad oes gan Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r tîm o uwch reolwyr ym maes iechyd meddwl y gallu i gyflawni'r math o adolygiad manwl a systemig sydd ei angen i wella gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn.

Mae staff BIP Betsi Cadwaladr wedi dweud wrth Donna Ockenden eu bod yn teimlo fod lefelau staffio "yn waeth yn awr" a'u bod wedi "llwyr ddiffygio" ac "ar eu gliniau". Nid yw staff yn teimlo bod neb yn gwranddo arnynt ac nid ydynt yn credu fod newid cadarnhaol wedi digwydd nac yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos. Maent hefyd wedi rhannu amheuon ynghylch gallu'r Bwrdd a'r uwch dîm rheoli i ddeall a darparu'r gofal diogel ac effeithlon y mae gan bobl hŷn hawl i'w dderbyn.

Byddaf yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd lechyd, Mark Polin a'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Gill Harris, ddiwedd Ionawr i drafod fy mhryderon

parhaus a'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cynorthwyo unigolyn drwy gyfrwng fy nhîm gwaith achos. Yn dilyn y cyfarfod hwn, byddaf yn penderfynu pa gamau pellach y dymunaf eu cymryd o bosibl, a bydd fy swyddfa'n parhau i gynorthwyo teuluoedd a pherthnasau'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio.

Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn canfod hyn yn ddefnyddiol fel rhan o'ch Ymchwiliad ac os oes modd i mi gynorthwyo gwaith y Pwyllgor mewn unrhyw fodd arall, cysylltwch â'm swyddfa'n ddi-oed.

*Yn gywir,
Heléna Herklots*

Heléna Herklots CBE

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru